
# tafod elái

HYDREF 2021

Rhif 361

Pris £1


## Yr Urdd yn Gant




Mae 2022 yn flwyddyn arbennig i'r Urdd, gyda'r mudiad yn dathlu ei chanmlwyddiant. Sefydlwyd gan Syr Ifan ab Owen Edwards yn 1922 gyda'r bwriad o amddiffyn y Gymraeg ac erbyn heddiw mae 55,000 o aelodau yn mwynhau profiadau unigryw a chyffrous trwy gyfrwng y Gymraeg.

I nodi'r achlysur, bydd llwyth o weithgareddau a digwyddiadau hwyliog i blant a phobl ifanc o 8 – 25 oed yn cael eu trefnu ledled Cymru yn ystod 2022.

O chwaraeon i'r celfyddydau, gwaith dyngarol i wirfoddol, mae'r Urdd yn cynnig gymaint i blant a phobl ifanc Cymru. Ac ym mlwyddyn y canmlwyddiant, dyma gyfle i blant a phobl ifanc Cymru i fod yn rhan o hanes.

Mae pris aelodaeth eleni yn £10 y plentyn neu aelodaeth teulu am £25 (ar gyfer tri neu fwy o blant). Mae'r Urdd hefyd yn cynnig aelodaeth am £1 i unrhyw blentyn sy'n derbyn cefnogaeth ariannol drwy gynllun cinio ysgol am ddim. Gallwch ymaelodi drwy ein gwefan: www.urdd.cymru/ymuno

Os nad ydych rhwng 8 a 25 oed ond yn awyddus i fod yn berchen ar fathodyn i nodi canmlwyddiant yr Urdd. Mae rhoddion ariannol yn gymorth mawr i ni allu parhau i drefnu a chynnal gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac rydym yn hynod ddiolchgar am bob rhodd. Eleni, gyda phob cyfraniad dros £20, bydd cefnogwyr yr Urdd yn derbyn bathodyn trwy'r post. Am wybodaeth pellach mae croeso i chi fynd i'n gwefan: www.urdd.cymru/cyfrannu

## £10

**Mae'n amser tanysgrifio unwaith eto i dderbyn Tafod Elái.**

**Ond ni fydd yn bosib i'n dosbarthwyr daro drws y tŷ i dderbyn eich taliad.**

**Gofynnwn i chi felly fynd i wefan**
**TafodElai.cymru**
**a thalu drwy'r linc gyda cherdyn debyd neu credyd.**

**Diolch i bawb sydd wedi tanysgrifio yn barod dros y we neu i'n dosbarthwyr.**

**Gallwch dderbyn Tafod Elái yn ddigidol, neu wedi ei argraffu.**

## Anrhydedd Arbennig



Yng Ngyfarfod Blynyddol Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru gynhaliwyd ar faes y Sioe yn Llanfair-ym-Muallt (Medi 8ed) anrhydeddwyd Dr Wynne Davies, M.B.E. Bridfa Ceulan, Meisgyn gyda Is-Lywyddiaeth Oes Er Anrhydedd a Medal Arian Y Gymdeithas am iddo fod yn gysylltiedig â'r Gymdeithas am 73 o flynyddoedd.

Cystadlodd Dr Wynne a'i dad yn y Sioe gyntaf ar ôl y rhyfel yn 1947 yng Nghaerfyrddin pan enillodd eu march Dinarth What Ho (testun y peintiad) bencampwriaeth y merlod Cymreig a mae merlod Ceulan wedi cystadlu ymhob Sioe ers hynny ac ennill sawl clod. Yn Sioe 2015 y pencampwr oedd y march Ceulan Calon Lân magwyd gan Dr Wynne a gwerthwyd i'w gynorthwywyr Rhydian a Bethan Donati, Milwas, Groesfaen. Rhedodd Dr Wynne Calon Lân ei hunan yn 83 mlwydd oed gan ennill y teitl o'r "Rhedwr hynaf yn hanes y Sioe Frenhinol mewn 111 mlynedd". Bu hefyd yn sylwebydd y brif cylch am 40 mlynedd tan y Sioe ddiwethaf yn 2019.

## Cau Ffordd am Dros Flwyddyn




Mae cwynion fod traffic trwm ym mhentref Ffynnon Taf oherwydd bod Ffordd Bleddyn wedi ei gau. Adeiladwyd y ffordd pymtheg mlynedd yn ôl er mwyn i loriau i'r ystâd ddiwydiannol osgoi'r pentref. Ond fel rhan o gynllun i adeiladu canolfan trenau newydd Trafnidiaeth Cymru yn Ffynnon Taf mae angen cau Ffordd Bleddyn er mwyn adeiladu pont dros gysylltiad rheilffordd i'r ganolfan newydd. Mae'r ardal yn fwrlwm o weithgaredd fydd yn dwysáu wrth i system rheilffordd y Cymoedd gael ei drydaneiddio.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Hydref
i gyrraedd erbyn
24 Hydref 2021

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafodelai.cymru**

*Argraffwyr:*
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**



# Coffi, Cacen, Clonc a Chodi Arian

Dydd Gwener, 24ain o Fedi yw'r dyddiad swyddogol ar gyfer Bore Coffi Mwyaf y Byd Macmillan ond mae digwyddiadau yn cael eu cynnal ar unrhyw ddiwrnod sydd orau i'r trefnwyr. Ar ddydd Sadwrn 18fed o Fedi daeth nifer dda i fore coffi Grŵp Codi Arian Macmillan Pontyclun a'r Cylch yng Nghaffi 50 Pontyclun a chodwyd £560. Mae cadeirydd y grŵp yn ffyddiog bydd y cyfanswm sy'n cael ei gyfrannu i'r grŵp yn cyrraedd dros £2,000 trwy grwpiau eraill yn yr ardal sydd hefyd wedi cynnal boreau coffi.

Roedd bore coffi Caesars Arms ar ddydd Llun 20fed o Fedi yn brysur iawn o dan arweiniad y tîm - Emma (prif gogydd Caesars) ac Ismail, Jo, Jenny, Bev ac Alex. Cafwyd cefnogaeth arbennig gan gogyddion o Grey Rabbit Cakes, Maria's Delights, Cocoa Magic, Martin, Charles Saunders, Terry's Patisserie, Hall's Patisserie, Sue Salmon, Marilyn Jones, Jane Tucker, Lindsay Price, Alison and Sonia, and 121 Motivation team Ryan and Simon. Daeth cyfraniadau ar gyfer raffl oddi-wrth Fine Wines Direct, Gwestŷ'r Vale, Steve Davis VPS Valet, Sue Salmon, Beverley Hibbert, a Heather a Hilary. Cyfanswm y bore oedd £2891.

Roedd cyfle hefyd i ffrindiau a chymdogion ddod at ei gilydd ym Meisgyn ar fore Sadwrn 25ain a, rhwng cyfraniadau gan rai brynodd hambyrddau o gacennau ar y dydd Gwener a'r rhai oedd yn yr ardd ar fore Sadwrn, codwyd yn agos i £400.



Tîm y Caesars Arms





Clonc ym Meisgyn



Grŵp Codi Arian Pontyclun

CLWB Y DWRLYN

## CLWB Y DWRLYN

## Twm Morus a Gwyneth Glyn

**7.30yh Nos Iau, Hydref 7fed**

**Ar Zoom**

**Manylion Cysylltu oddi wrth:**
**clwbydwrlyn@pentyrch.cymru**

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

**Brysia Wella**
Dymunwn yn dda i Nia Wyn Williams wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.
Brysia wella Nia.

**Bachwr i Bentyrch**
Croeso cynnes i'r pentref i fachwr Cymru a'r Scarlets Ryan Elias a'i briod Meg sydd newydd symud i fyw yn ein plith. Llongyfarchiadau hefyd a dymuniadau gorau i'r ddau ar eu priodas yn ddiweddar. Mae'n siwr y bydd yma groeso twymgalon iddynt hyd yn oed gan gefnogwyr rygbi Caerdydd.

**Pen-blwydd Hapus**
Llongyfarchiadau i Eifion Glyn sydd wedi cyrraedd oed arbennig ac wedi mwynhau'r dathlu.

**Dymunidau Da**
Danfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion cynnes at Carol Penri sydd yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth.

**I Gofio am Brian**
Flwyddyn yn ôl bu farw Brian Davies, un o'r cymeriade mwya poblogaidd a dylanwadol o fewn ein cymuned ni yma ym Mhentyrch a'r Creigiau. Ma bron pawb yn yr ardal yn ymwybodol o gyfraniad enfawr Brian mewn cymaint o wahanol feysydd yn ei filltir sgwâr a thu hwnt, gyda Chantorion Creigiau a Chlwb y Dwrlyn wedi elwa cymaint â neb o'i hiwmor, ei natur hynaws, a'i ffordd gynnes o drin cynulleidfa dros y blynyddoedd. Ond i gydnabod ei gyfraniad aruthrol i fyd y campe y daeth criw sylweddol o bobl i Glwb Rygbi Pentyrch ar fore Sadwrn gwlyb a gwyntog ddiwedd Awst. Roedd yn achlysur teimladwy iawn ar y naill law, ond hefyd yn achlysur o ddathlu wrth i'w wraig Enid a'i ferch Kate gyflwyno mainc urddasol i'r clwb er cof amdano. Ac mae'r geirie dwyieithog sy wedi'u cerfio'n gelfydd i'r fainc yn dweud y cwbwl am ei ddylanwad ym myd y bêl hirgron.



I gofio BRIAN DAVIES 1941-2020
A champion of open rugby
Disglair dros Gymru –
Ysbrydoliaeth i Bentyrch

Ie – lladmerydd dros rygbi agored cyffrous fu Brian drwy ei yrfa – boed hynny pan enillodd ei dri chap dros Gymru – rodd ei dalent yn haeddu llawer mwy – ei gyfnod hir gyda nifer o brif glybie Cymru – ac yn bendant pan ddaeth i Bentyrch ar gyfer ei dymhore ola a thrawsnewid holl athroniaeth y clwb o ran yr ymarfer a'r agwedd ar y cae. Fe gafodd e ddylanwad aruthrol; bechgyn y tîm yn ei chael hi'n anodd credu bod chwaraewr rhyngwladol nawr yn chware dros y pentre, a phawb yn mwynhau'r rygbi anturus cyffrous yr odd Brian yn ei annog.

Er y tywydd diflas daeth dros 150 o bobl i'r clwb y bore Sadwrn hwnnw – a hynny'n adrodd cyfrole am y parch amlwg fu gan bawb at Brian. Cafwyd tipyn o hanes ei yrfa a storïau amdano, cyn i Enid godi i ddiolch i bawb am ddod – yn ffrindie, teulu, aelode o wahanol gymdeithase a grwpie fu'n gyment rhan o'i fywyd, ac - yn rhyfeddol – tîm cyfan ac ambell eilydd o'i gyd chwaraewyr o'r 70au wedi teithio o bell ac agos i fod yn rhan o'r achlysur. Do – fe ysbrydolodd e genhedlaeth gyfan ar Faes y Dwrlyn. Yna'r uchafbwynt wrth iddi alw ar blant Kate – George a Lillith – yr ŵyr ac wyres yr odd Brian ac Enid yn meddwl y byd ohonyn nhw – i ddod i ddadorchuddio'r fainc. Rodd hi'n eiliad spesial.

Cyfle wedyn am baned a chacen, a'r cyfle i gymdeithasu a hel atgofion.

Ie bore arbennig i gofio ffrind arbennig i bawb.

Huw Llywelyn Davies



George a Lillith yn dadorchuddio'r fainc

## Hwyl yr Hydref

menter caerdydd

Mae'n fis Hydref yn barod ac mae gweithgareddau'r tymor yn eu hanterth. Braf yw gweld y clybiau poblogaidd i blant ac oedolion yn dychwelyd gyda nifer yn cwrdd wyneb yn wyneb. O *Amser Stori* i *Pilates*, mae cyfle i bobl o bob oed ddod at ei gilydd yn ddiogel.

Os ydych chi wedi ymddeol ac yn hoff o gerddoriaeth, beth am ddod i Ganolfan Beulah, Rhiwbeina ar foreau Llun ar gyfer ein sesiynau newydd, Mewn Tiwn, mewn cydweithrediad â Live Music Now? Maen nhw'n rhad ac am ddim!

Noson arall i'r dyddiadur yw nos Fawrth, 19 Hydref pan fydd Aled Wyn Phillips yn cynnal cwis dwyieithog i bobl y Fro a thu hwnt yn y Tŷ Newydd Inn, Y Barri.

Cynhelir nifer o weithgareddau cyffrous ar Zoom hefyd dros yr wythnosau nesaf. Frank Olding fydd yn arwain y cyntaf o'n cyrsiau byrion ar hanes Cymru wrth iddo drafod cestyll y de-ddwyrain.

Bydd Nerys Howell yn ôl gyda mwy o ryseitiau tymhorol a bydd Wendy Davies yn creu trefniadau hardd gan ddefnyddio planhigion o'n gerddi. Carwyn Graves fydd gwestai 'Sgwrs y Mis' gan gynnig golwg newydd ar fwyd Cymru.

Wrth edrych ymlaen at hanner tymor, bydd ein 'Cynllun Gofal' yn rhedeg bob dydd yn Ysgol Treganna ac Ysgol Melin Gruffydd a 'Bwrlwm' yn dychwelyd gyda sesiynau chwarae rhad ac am ddim.

Bydd Menter Caerdydd hefyd yn cynnig sesiwn blasu 'Sgwad Sgwennu', ar y cyd gyda Llenyddiaeth Cymru (blynyddoedd 5 i 8), yng nghwmni Bardd Plant Cymru, Gruffudd Owen. Draw ym Mro Morgannwg, bydd Gweithdy Coginio i blant ysgol gynradd yng nghwmni Ruth Thomas o Cook Stars.

Wrth gofrestru ar gyfer gweithgareddau, cofiwch ddweud, 'Helo,' wrth Mari Owens (Swyddog Datblygu Gwasanaethau Plant) a Lauryn Carreg (Swyddog Ieuenctid) sydd wedi ymuno â'r tîm dros yr haf.

Am fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau, ewch i:
mentercaerdydd.cymru neu
menterbromorgannwg.cymru neu'r
cyfryngau cymdeithasol.
Neu cysylltwch: â
post@mentercaerdydd.cymru /
029 2068 9888.

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

**Cystadleuaeth Calan Gaeaf Carnifal Creigiau**

Rydym yn cynnal cystadleuaeth yn Creigiau am y ffenest orau neu'r ardd ffrynt orau gyda thema **Calan Gaeaf**. Bydd gwisg ffansi yn cael marciau ychwanegol. Bydd y beirniadu yn digwydd rhwng **6 ac 8pm** dydd Sadwrn Hydref 30ain a bydd gwobr o **£50** i'r enillydd. O Ysbrydion i Zombies rydym yn edrych ymlaen at weld eich arddangosfeydd sbwci. Am fanylion pellach edrychwch ar ein tudalen ar FB a Twitter @creigiaucarnvl. Rhowch wybod os ydych am gystadlu ar creigiau-carnival@outlook.com

**Cydymdeimlad**

Yn ddiweddar bu farw Mrs Dilys Myfanwy Williams, gweddw Mr Oswald Williams, yn 95 mlwydd oed. Brodor o Gaerfyrddin yn wreiddiol ond wedi byw ers naw mlynedd gyda ei merch Jane a'r teulu yn 32, Parc y Coed.

Cydymdeimlwm â Jane a'i gŵr Roy, a'u plant Rhys a Gruffudd. Hefyd roedd yn hen fam-gu i Ieuan a Dylan.

**Hyfryd bob tro yw cael cyhoeddi newyddion da.**

B'nawn Llun, Medi 6 ganed Noa Elis Price. Mab i Astrid, gynt o Creigiau ac i Nathan o'r Porth a brawd bach i Alba. Erbyn hyn mae'r teulu wedi ymgartrefu ym Mhentre'r Eglwys. Pob bendith!



**Croeso cynnes i'r Creigiau!**

A diolch arbennig i Ros - y ditectif craff! Mae Ros yn gyffrous iawn i gael cymdogion newydd ym Mryn Briallu - sy'n Gymry Cymraeg! A dyma nhw . . .

Ceri, Gwyn, Hari (7) a Seth (4) Jones yda ni! Wedi symud i Gaerdydd mis Awst 2020. Yn wreiddiol o'r Gogledd (Gwytherin a Dinbych) ond wedi bod yn byw allan yn Dubai ers 2015 hefo gwaith Gwyn.'

Croeso cynnes iawn i chi deulu bach a gobeithio y cawn ddod i'ch nabod yn well dros y blynyddoedd wrth i chi setlo yn eich cartref newydd yn Creigiau.

# Merched y Wawr Cangen y Garth yn Dathlu'r Aur

Mae Cangen y Garth Merched y Wawr yn dathlu 50 mlynedd ers ei sefydlu yn 1970 a bu Loreen Williams yn hel atgofion yn rhifyn Hydref o *Y Wawr*.

Fedrai ddim bod yn hollol siŵr pryd cychwynnodd Cangen y Garth, ond rwy'n cofio ar ôl dod i Efail Isaf i fyw, fod Ann Rees a minnau'n teithio lawr i neuadd fach ym mhentref Groesfaen yn 1970 i ymuno â Changen Creigiau, fel y'i gelwid pryd hynny. Mae'r cerdyn aelodaeth gen i o hyd a wyddoch chi taw pum swllt (25c) oedd y tâl aelodaeth am y flwyddyn! Roedd dalgylch yr aelodaeth yn eang, yn ymestyn o bentref Radur, Pentyrch, Creigiau, Efail Isaf, Pentre'r Eglwys, Llantrisant cyn belled â Meisgyn.



RHAGLEN AR GYFER 1970-1971

| | | |
|---|---|---|
| Medi 8, 1970 | Mrs. Gwyn Erfyl Jones a'i parti | |
| Hydref 13, 1970 | Miss Beti Rhys | Taith o gwmpas y byd |
| Tachwedd 10, 1970 | Miss Nest Williams | [illegible] at barti plant |
| Rhagfyr 8, 1970 | | Parti Nadolig |
| Ionawr 14, 1971 | Mr. Gwilym Roberts | Twmpath Dawns |
| Chwefror 9, 1971 | Dr. [illegible] Jones | Mammography |
| Mawrth 9, 1971 | Mr. Brinley Richards (Gŵr Gwadd) | Cinio Gŵyl Ddewi |
| Ebrill 6, 1971 | Mrs. Gruffydd John Williams | Hanes yr ardal |
| Mai 11, 1971 | | Rhowch a Phrynwch |
| Mehefin 8, 1971 | Mrs. Rebecca George | Blodau Awstralia |
| Gorffennaf 13, 1971 | | Cyfarfod Blynyddol |

Bu'r Gangen yn crwydro o amgylch amryw o neuaddau yn yr ardal o'r Groesfaen, Creigiau, Gwaelod y Garth a Phentyrch cyn ymsefydlu erbyn hyn yng Nghanolfan y Tabernacl, Efail Isaf. Wrth bori drwy'r rhaglenni ar hyd y blynyddoedd cawsom amryw o siaradwyr dylanwadol. Enwau fel Mallt Anderson, Dr Harri Pritchard Jones, Teleri Bevan, Mrs Gruffydd John Williams a Mrs Gwyn Erfyl Jones. Ie, sylwch ar yr arfer o alw rhai o'r siaradwyr wrth enwau eu gwŷr yn y cyfnod hwnnw! Cawsom ein siâr o hanes



Aelodau'r Gangen yn 1990 yn cyflwyno siec am £650, elw Sioe Ffasiynau yn siop Dan Evans, i Mr Rees, Trysorydd Apêl Eisteddfod yr Urdd Taf Elái 1991.

Cymru. Yr Athro Ceri Lewis yn rhoi hanes Iolo Morganwg, Roy Saer yn cyflwyno caneuon gwerin a Minwell Tibbott, a oedd yn aelod o'n cangen yn awdurdod ar hanes bwydydd Cymreig. Cawsom flas ar drefnu blodau, coginio, creu addurniadau Nadolig a gwneud cyflaith yng nghwmni Buddug Tomos.

Braint a ddeuai i ran pob cangen o Ferched y Wawr yn achlysurol oedd trefnu cinio Calan Mai i holl aelodau'r rhanbarth. Dyma bennill o wahoddiad gan ein Cangen ni i wahodd ffrindiau i gyd-wledda yng Ngwesty'r Arth yn Y Bont-faen yn ystod y saithdegau.

Aelodau Cangen Creigiau
Sy'n gwahodd 'nawr ein ffrindiau
I ddathlu Calan Mai yn ffri,
Da chi, dewch draw yn heidiau.

A'r pris am y noson yma o ddathlu? Punt!

Efallai nad fi yw'r orau i adrodd hanes y Gangen gan i mi ddiflannu o Gangen y Garth am ryw dair blynedd ar ddeg. Sefydlwyd Cangen ym Mhentre'r Eglwys yn 1977 ac mi ddaeth dros ddeugain o aelodau i'r gangen ar y noson gyntaf. Yn anffodus edwino wnaeth y gefnogaeth i'r gangen honno, ac mi gafodd nifer dda ohonom ein croesawu yn ôl i Gangen y Garth â breichiau agored!

Loreen Williams



Aelodau'r Gangen yn 2014

# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol:*
*Dawn Walters*

Yn dilyn cyfnod hir o aros cafodd Esmay a Verity Walters gyfle o'r diwedd i ddawnsio gyda'u timau yng nghystadleuaeth yr European Formation Latin Championships. Mae'r ddwy yn aelodau o stiwido Dance Crazy yn Llanilltud Faerdref. Mae Esmay yn ddisgybl bl7 Ysgol Llanhari a Verity bl3 YGG Tonyrefail.



Daeth Verity yn gyntaf gyda'i thîm hi, Y Decendents, yn y categori dan 8 oed. Daeth Esmay yn ail gyda'i dau dîm - Aladdin a World in Union yn yr adran iau.

Mae diolch mawr yn mynd i drefnwyr y gystadleuaeth sef J P Dance Promotions am roi'r cyfle i deuluoedd ymuno ar Zoom.

Mae Verity hefyd wedi cystadlu yn ddiweddar yn y ddawns Lladin Unigol gyda chanlyniadau rhagorol.

Bu Esmay yn cystadlu gyda'i phartner Isabelle Blowers yn y Blackpool Tower Ballroom ac ennill y Bencampwriaeth Ieuenctid Cenedlaethol Dawns Lladin i Ferched a dod yn ail yn y Gystadleuaeth Dawnsio Ballroom i Ferched.



# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y Mis : Allan James

**Llongyfarchiadau**
Mae Math Roberts (Maes yr Haul) wedi cael lle yn nhîm criced De Cymru dan unarddeg ar ôl treialon diweddar. Pob dymuniad da i Math.

**Côr Tadau Llantrisant**
Newyddion fod Côr Tadau Llantrisant wedi ailddechrau ymarfer ar ôl cyfnod covid. Cynhelir ymarferion bob nos Fawrth os oes gan unrhyw un ddiddordeb. Croeso cynnes.

**Cyrraedd Llangwnnadl**
Ddechrau'r saithdegau, ryw hanner canrif yn ôl erbyn hyn, cyhoeddwyd dwy gyfrol hynod ddiddorol a chyfoethog gan awdur o'r enw J.G. Williams, cyfrolau sy'n cynnig cronicl o fywyd gwledig Llŷn rhwng y ddau ryfel byd. Cefais fwynhad arbennig o ddarllen y cyfrolau pryd hynny, sef 'Pigau'r Sêr' a 'Maes Mihangel', ac mae'n syndod faint o'r enwau llefydd amrywiol a oedd wedi aros yn fy nghof, enwau a anwylwyd gan yr awdur fel y byddai'r tribanwyr gynt yn anwylo enwau pentrefi Bro Morgannwg. Medd yr awdur : 'Bues yng nglan môr Aberdaron droeon, ym Mhorth Cadlan efo Nhad, ym mhorth Ysgo efo Dafydd Llawenan, ac yng nglan môr Ynysgain Fawr a Thynymorfa'. Dro arall sonnir am y 'glaw i'w weld yn gyrru o gyfeiriad Enlli gan guddio Mynydd y Rhiw a Mynydd Cefnamwlch, a'r Garn Fadryn yn gwbl o'r golwg'. Am ryw reswm un o'm ffefrynnau oedd yr enw Llangwnnadl, llecyn y byddai'r awdur yn ei blentyndod yn treulio gwyliau ynddo.

Agwedd arall ar y croniclo yw gallu'r awdur i ail-greu profiadau plentyn ysgol, y plentyn a fyddai wrth ei fodd, er enghraifft, yn gwrando ar Canon Lewis er nad ei genadwri a fyddai'n plesio : 'Cyn hir y mae Canon Lewis yn sefyll o'n Blaenau ar ganol y llawr ac yn dechrau siarad. Wedi siarad ychydig bach yn Saesneg er mwyn Miss Priestley, mae'n troi i'r Gymraeg, ac yn dechrau dweud stori am y saint yn mynd i Enlli. Gobeithio'r nefoedd yr â yn ei flaen ac ymlaen ac ymlaen nes y bydd y wers Scripture yn bwyta i mewn i'r wers syms sydd i ddilyn'. Yn dilyn ceir dyfarniad y plentyn ifanc : 'Dyna un peth sy'n werth chweil yn y bobl eglwys yma, byddant yn troi i mewn mor aml yn ystod Scripture ac yn gwneud llanast ar y syms'.

Beth am berthnasedd y traethu uchod a'r cyfeiriadau at gyfrolau J.G. Williams. Afraid dweud fod cynifer ohonom wedi gorfod cyfaddawdu yn ystod cyfnod y cyfyngiadau diweddar a hynny'n golygu addasu unrhyw drefniadau teithio. Yn fy achos i bu cyfle o'r diwedd i grwydro Llŷn wrth fy mhwysau ac i weld yr enwau hynny a anwylwyd gan J.G. Williams bellach ar arwyddion ffyrdd. Eleni dyma fi'n gweld Llangwnnadl o'r diwedd ryw hanner canrif wedi'r ymgyfarfod llenyddol gwreiddiol.







**Merched y Wawr**
**Cangen y Garth**

**CYLCH CADWGAN**

**Nos Lun, 11 Hydref am 7.30.**

Noson ar Zoom yng nghwmni

**Lleucu Roberts**
enillydd Gwobr Daniel Owen
a'r Fedal Ryddiaith eleni.

Manylion Cysylltu
oddi wrth:
**cangenygarth@pentyrch.cymru**

# Curo'r Corona'n Coginio

### Eluned Davies-Scott

*"Yr un sy'n gofalu am ffigysbren sy'n bwyta'i ffrwyth"*



Wrth i'r amser ddod ar gyfer sgwennu erthygl ar gyfer 'Tafod' unwaith eto cefais ysbrydoliaeth y tro hyn o nofel rwy'n ei darllen gan Elif Shafak, un o'm hoff awduron, ' *The Island of Missing Trees'* - stori am ffigysbren sy'n tystio cariad, trawma, cof ac amnesia, natur ac adnewyddiad.

Mae hefyd yn dymor da ar gyfer prynu ffigys ffres ond efallai mai eich profiad cyntaf o fwyta ffigys oedd cael rhai wedi sychu amser y Nadolig neu ei blasu yn y bisgedi enwog a wnaed gan McVitties.

Tybed faint ohonoch sydd yn gwybod sawl gwaith mae'r ffigysbren yn ymddangos yn y Beibl? Wnâi ddim rhoi'r ateb rhag ofn fy mod yn anghywir! Nid yw'n syndod bod nifer o gyfeiriadau at y goeden hon gan ei bod mor gyffredin yng Ngorllewin Asia a rhanbarth Môr y Canoldir. Dechreuodd pobl dyfu coed ffigys yn yr Aifft neu Arabia rywbryd rhwng 4000 a 2700 CC. Mae paentiad ar wal beddrod yn yr Aifft o 1900 CC yn dangos ffigys yn cael eu cynaeafu. Roedd ffigys sych yn boblogaidd ar gyfer melysu bwydydd pryd oedd siwgr yn egsotig a prin.

Oeddech chi'n gwybod fod rhai mathau o goed ffigys yn wryw neu benyw ac mae angen brîd arbennig o wenyn meirch i beillio'r benywod. Mae gwenyn meirch benywaidd yn mynd i mewn i'r ffrwyth trwy dwll mor gul nes ei bod yn colli ei hadenydd yn y broses ac yn cael ei dal. Os yw'r ffigys yn wryw mae'n dodwy ei hwyau y tu mewn. Mae'r larfa yn tyllu allan, troi'n gacwn ac yn hedfan i ffwrdd, gan gario paill ffigys gyda nhw. Os yw'r gwenyn meirch yn dringo i mewn i ffigys benywaidd, mae'n ei beillio. Yn ffodus i ni, mae'r ffigys benywaidd yn cynhyrchu ensym sy'n treulio'r gacynen yn llwyr.



Hadau yw'r darnau crensiog yn y ffrwyth, nid rhannau o wenyn meirch! Erbyn 16eg ganrif ymddangosodd math newydd o goed ffigys nad oedd angen cymorth y cacwn. Wedi hyn daeth yr amrywiaeth newydd yma yn gyffredin ac roedd ffigys Smyrna yn hawdd eu tyfu yn enwedig yng Nghaliffornia. Dyma'r ffigys gorau i'w bwyta'n ffres ac maen nhw hefyd yn cadw eu siâp yn dda wedi'u sychu.

Mae ffigysbren gennym mewn potyn yn yr ardd ond rhaid gofalu amdani am ychydig mwy o flynyddoedd cyn iddi ddwyn ffrwyth sy'n fwytadwy. Yn ôl y garddwr Alys Fowler, os nad oes gennych ffigys ar eich coeden yna mae eich ffigys naill ai'n rhy ifanc neu'n rhy hapus! Mae ffigys yn cymryd sawl blwyddyn i ffrwytho ac mae coeden sy'n rhy hapus wedi cael gormod o ryddid. Os nad yw gwreiddiau'r goeden heb gael eu cyfyngu mae'r goeden yn tyfu'n olygus ac uchel, ond yn aml ni fydd yn rhoi llawer yn ôl yn y ffordd o ffrwythau aeddfed.

Mae ffigys yn faethlon iawn. Mae bwyta dwy ffigysen ffres yn cyfrif fel un o'ch 'pump y dydd'. Maent yn llawn calsiwm a magnesiwm a hefyd yn uchel mewn polyffenol (gwrthocsidydd). Mae ffigys sych yn uchel mewn caloriau (230 Caloriau mewn 100g i gymharu â 78 Caloriau mewn rhai ffres) ond yn llawn ffibr.

Gellir eu defnyddio mewn seigiau melys a sawrus ac mae amrywiaeth o rysetiau ar gael ar y we. Edrychwch ar wefan *Good Food* am syniadau. Maen nhw'n paru'n dda gyda mêl, cnau, sinamon, teim, pomgranad, cawsiau meddal fel caws gafr a ricotta a hefyd cawsiau glas. Gellir eu cynnwys mewn focaccia, tartenni, cacennau a phwdinau. Mae gan Paul Hollywood hyd yn oed rysáit ar gyfer gwneud y rholiau ffigys enwog. Pan fydd amser gen i dwi'n ffansio rhoi tro ar rysáit yr enwog Jane Grigson sydd yn ei llyfr '*The Enjoyment of Food'* sy'n defnyddio stwffin wedi e baratoi gyda ffigys ffres a sinsir mewn lwyn oen '*ên croûte'*. Ond am y presennol fe gadwaf bethau'n syml a chael fy ffigys fel y maent i'm brecwast neu eu pobi gyda mêl, cnau pistachio, sudd oren a'i gweini gydag iogwrt Groegaidd.

# Ysgol Pont-Sion-Norton

**Croeso**

Croeso i'r staff newydd sydd wedi ymuno gyda ni, sef Mr Iestyn Jones sy'n dysgu blwyddyn 4, Miss Alex Maddy cynorthwyes yr Adran Iau a Miss Brittney Cowley cynorthwyes ym mlwyddyn 1 a 2. Croeso mawr hefyd i'n disgyblion newydd yn nosbarth Meithrin Mrs Bassett!

**Blodau**

Diolch i'r Cyngor Eco am fod mor weithgar o amgylch yr Ysgol wrth dacluso a phlannu blodau lliwgar. Mae'r iard yn edrych llawer mwy serchus nawr!



**Dathlu**

Fel rhan o'n thema Ysgol gyfan ar gyfer y tymor, sef Dewch i Ddathlu, bu pawb yn dathlu Diwrnod Owain Glyndwr. Bu plant yn ymchwilio, darllen am ei hanes, creu cestyll, cynllunio coron a llawer mwy! Bu'r Adran Iau hefyd yn dathlu diwrnod Roald Dahl trwy ddarllen ei lyfrau a gwneud ioga y Twits.




**Pen-blwydd 70 yr Ysgol**

Ar Hydref y 15fed, mi fydd yr ysgol yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 mlwydd oed. Mae tudalen Facebook wedi ei greu er mwyn i bobl nodi atgofion a rhannu lluniau o'r ysgol. Mi fyddwn yn cael wythnos o ddathlu yn yr ysgol i nodi'r achlysur arbennig. Gobeithiwn gynnal bore agored i gyn staff yr ysgol yn nhymor yr Haf, yn dibynnu ar reolau a chyfyngiadau Covid 19. Edrychwn ymlaen at y dathlu!

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon (yn y capel oni nodir yn wahanol):**
[Noder: Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd yn rhithiol o hyn hyd at ddiwedd mis Hydref]
**Mis Hydref 2021:**
3 Hydref – Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul (Sylwer: Rhithiol)
10 Hydref - Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys
17 Hydref - Oedfa dan ofal y Parchedig R Alun Evans
24 Hydref - Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards
31 Hydref – Oedfa Sul Adferiad dan ofal Wynford Ellis Owen
**Mis Tachwedd 2021:**
7 Tachwedd - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
14 Tachwedd - Oedfa dan ofal Sian Meinir
21 Tachwedd - Oedfa Sul yr Urdd (dan ofal Ieuenctid yr eglwys)
28 Tachwedd - Oedfa dan ofal y Parchedig Lona Roberts

---oooOOOooo---

Bellach mae 'na gyfnod o chwe mlynedd a mwy ers i mi ymddeol o'm swydd.

Gadewais fyd peirianneg sifil bryd hynny, ond, mae'n debyg, fel llawer eraill ohonoch, tydi'r byd a'r bywyd proffesiynol y buom yn creu gyrfa ynddo ddim yn ein gadael ni mor hawdd a hynny.

Mae cadw i fyny a'r hyn sy'n digwydd yn ein maes arbennig ni yn fater gwahanol y dyddiau yma wrth reswm, gyda'r byd a'i bethau yn ein cyfarch wrth daro botwm ar un o'r sgriniau cyfleus rheini sy'n ein cartrefi neu'n pocedi.

A dyma finnau'n cyfaddef mai dyna'r demtasiwn ddyddiol sy'n digwydd i minnau, gan ddilyn trywydd rhyw ddatblygiad newydd, rhyw brosiect newydd neu rhyw bolisiau newydd a fydd o fudd i'n cymdeithas, boed leol neu rhyngwladol.

Y dydd o'r blaen daliwyd fy sylw gan erthygl yn cyhoeddi fel a ganlyn:-
"Lawnsio côd marchnata deunyddiau", gyda'r paragraff ysgytwol yn cyhoeddi mai'r bwriad oedd sicrhau fod cynhyrchwyr deunyddiau adeiladu yn addo peidio dweud anwiredd, twyllo, camarwain na drysu'r prynwr gyda'u deunydd marchnata.

O ddarllen ymhellach deallais mai yn sgil trychineb Tŵr Grenfell* y datblygwyd y côd, a hynny oherwydd i hygrededd a marchnata gael ei nodi, mewn trafodaeth, fel dwy elfen anghymesur.

* Fe gofiwch y tân angheuol mewn tŵr 24 llawr yn Llundain ar y 14eg o Fehefin 2017, a'n hysgwydodd i gyd, a chollodd 72 o drueiniad eu bywydau yn y digwyddiad.]

Mae'r côd wedi ei seilio ar yr egwyddor y dylai gwybodaeth am ddeunyddiau adeiladu fod yn glir, yn gywir, yn gyfoes, yn hygyrch ac yn ddiamwys.

Bydd angen canolbwyntio ar ddiwylliant, arweinyddiaeth a moesoldeb y cwmniau er sicrhau bod y ddelfryd o adeiladu ymddiriedaeth yn eu cynnyrch yn cael ei adfer.

Cred llawer o fewn y diwydiant mai ychydig iawn o effaith a gaiff y côd, heb gefnogaeth deddfwriaeth briodol yn gefn iddo.

Mae'n ddiddorol nodi mai trychinebau sy'n gyfrifol am greu neu orfodi diweddaru / ailwampio deddfwriaeth gwlad, ac o fewn y diwydiant y bum i yn gweithio ynddo, mae trychinebau yng Nghymru wedi lliwio llawer o'r galw hwnnw.

Ar yr 2il o Dachwedd 1925, yn dilyn glaw trwm ryfeddol (26 modfedd yn syrthio mewn 5 diwrnod) bu i argae ar draws Llyn Eigiau yn Nolgarrog dorri, a'r dŵr o hwnnw hefyd yn chwalu Cronfa Coedty, gan achosi i 17 o bobl golli eu bywydau.

Crewyd deddfwriaeth - "*Reservoir (Safety Provisions) Act 1930*" – mewn ymateb i'r drychineb.

Diweddarwyd y ddeddfwriaeth yma yn 1975 – a'i galw'n "*Reservoirs Act 1975*" – a hynny yn dilyn trafferthion gyda Chronfa Ddŵr Lluest Wen, ger y Maerdy, ychydig cyn Nadolig 1969.
O drwch blewyn llwyddwyd i osgoi trychineb bryd hynny, un a fyddai o bosibl wedi gwagio 242 miliwn o alwyni o ddŵr oedd yn y Gronfa, a boddi cymunedau'r Rhondda Fach.

Nid oes angen eich atgoffa mai tair blynedd cyn hynny, ar yr 21ain o Hydref 1966, y digwyddodd y gyflafan yn Aberfan, trasiedi, yn ol trafodaeth ar y ddeddfwriaeth a fabwysiadwyd yn sgil hynny ("*Mines and Quarries (Tips) Act 1969*") yn Nhy'r Arglwyddi "*a ysgwydodd y byd*", trasiedi "*nad oedd angen i ddigwydd, ac na ddyliai fyth fod wedi digwydd.*"

Ac eto, mor ddiweddar a'r 16eg o Chwefror 2020, er nad anafwyd neb, yn sgil llifogydd Storm Dennis, bu i filoedd o dunnelli o wastraff o dip glo Llanwonno, ger Tylorstown, yn y Rhondda Fach, lithro i'r afon islaw.

Yn dilyn hyn, da deall bod Llywodraeth Cymru newydd gomisiynu cwmni arolygu Central Alliance i wneud asesiad o ddiogelwch tipiau glo yn ne Cymru.

## Côr Hen Nodiant

Mae Côr Hen Nodiant yn ail-afael yn yr ymarferion yn ystod yr wythnosau nesaf, ac yn awyddus i ddenu aelodau newydd, yn arbennig tenoriaid a baswyr.

Cynhelir yr ymarferion ar nos Fercher yng Nghaerdydd ac mae gofyn i'r aelodau fod yn 60 oed erbyn Awst 2il 2022.

Os oes diddordeb gennych ymuno mewn côr sydd wedi ennill deg waith yn olynol yn y Genedlaethol - cyfle sydd ddim yn dod yn aml - cysylltwch â Penri Williams, 02920890040 neu corhennodiant@gmail.com

---

Ond does gan yr uchod un dim i wneud â Bethlehem, Gwaelod-y-garth, meddech. "*Na*", fyddwn yn ei ateb i hynny wrth reswm – wel, hwyrach ddim yn uniongyrchol, ond fe fum yn darllen cyfrol (77 tudalen) Cynog Dafis o'r enw "*Pantycelyn a'n picil ni heddiw*" [Y Lolfa, pris £4.99].

I ddyfynnu'r dudalen deitl, yr hyn ydyw, yn ôl ei addefiad ei hun ydi – "*llythyr at y Cymry deallgar yn enwedig yr ifainc ynghylch pam y dylid talu sylw o'r newydd i Williams Pantycelyn*."

Meddai, "*Mi fyddaf yn treial esbonio wrth fynd ymlaen pam 'rwyn credu bod gan grefydd, a Christnogaeth yn benodol, ran bwysig i'w chwarae yn ein bywydau o hyd. Ond er mwyn iddyn-nhw wneud hynny, fy marn i yw bod angen eu hailddehongli mewn modd go radical.*"

"*Man cychwyn yr ailddehongliad, fel y gwelaf i bethau, fyddai cydnabod nad a ffeithiau yr ydyn-ni'n delio wrth ymwneud â chrefydd.*"

"*Myth hanesyddol cenedl y Cymry, myth ein gwareiddiad gorllewinol ni, a ymledodd drwy gyfuniad o oresgyn a gwasanaethu cenhadol drwy'r byd, yw Cristnogaeth. Mae ynddi, o'i gwir-ddehongli a'i haddasu, a heb iddi hawlio unrhyw awdurdodd unigryw, y gwerthoedd a'r chwedlau a'r doethinebu cronedig i gynnig arweiniad yn y trawsnewidiad y mae rhaid wrtho yn yr 21ain ganrif.*"

A dyna finnau'n eich tywys yn ôl i ddechrau'r erthygl hon felly, gan awgrymu, yn null Cynog Dafis a'r "Gristnogaeth Newydd" y mae'n ei deisyf yn y gyfrol, y gall lawnsiad "Côd Marchnata Bethlehem, Gwaelod-y-garth" fod yn fanteisiol, gan addo yn ogystal y byddwn yn "*peidio dweud anwiredd, nac yn twyllo, na chamarwain, na drysu unrhyw un*" fydd am ymuno yn ein haddoliad, ac y byddwn o hyn allan yn sicrhau bod ein neges "*yn glir, yn gywir, yn gyfoes, yn hymgyrch ac yn ddiamwys*".

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

**Croeso i Mabli Tina**

Llongyfarchiadau mawr i Gruff a Bethan ar enedigaeth Mabli Tina Clements. Ganwyd Mabli ar 14 Awst. Croeso i'n plith yn Nhonyrefail, Mabli.



**Codi Arian i Gymorth Cristnogol**

Diolch i'r grŵp bach o wirfoddolwyr yn Eglwys Dewi Sant a baratôdd frecwast gwych i ni fore Sadwrn, Medi 4ydd. Bore codi arian i Gymorth Cristnogol oedd e. Yn y llun gyda fi a fy nhad (oedd yna'n mwynhau'r brecwast) mae Maureen Harris sydd wrthi'n dysgu'r Gymraeg gyda Maldwyn Pate. Pob dymuniad da gyda lefel Sylfaen, Maureen.




**Parc Sglefrio a Chamfa Awyr Agored**

Mae Parc Sglefrio a Champfa Awyr Agored cam yn nes wrth i Gronfa'r Loteri symud cais Ffrindiau Parc Tynybryn ymlaen i'r ail rownd o gyllido. Daeth criw at ei gilydd fore Sadwrn, 18 Medi i godi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch ac i roi cynnig ar ddysgu sgiliau newydd. Daeth yr Aelod Seneddol lleol, Alex Davies Jones, i anfon pawb ar eu taith rownd y parc.



## Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

**Croeso nôl**

Croeso nôl i holl ddisgyblion a staff yr ysgol wedi'r gwyliau haf. Roedd yn hyfryd gweld y plant i gyd ar ddechrau'r mis ac mae pawb erbyn hyn wedi ymgartrefu yn eu dosbarthiadau newydd. Croeso enfawr hefyd i'n disgyblion newydd yn y dosbarth Meithrin. Mae Miss Bevan, Mrs Smith a Miss Jones wedi canmol bob un ohonoch am fod yn blant mor dda.





















**Staff newydd**

Croeso i Mr Andrew Pritchard, gofalwr newydd yr ysgol. Croeso hefyd i'r tîm cynorthwyol i Mr Dylan Hall a Mrs Claudia Terrell.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau enfawr i Miss Shannice Powell ar enedigaeth ei mab, Noah, ym mis Mehefin. Dymunwn bob hwyl i'r teulu.

**Gweithgareddau allgyrsiol**

Braf iawn oedd cael ail-ddechrau clybiau ar ôl ysgol, y tro cyntaf i ni gynnal clybiau ers mis Mawrth 2020! Diolch o galon i'r holl staff am roi eu hamser ar gyfer y clwb garddio, clwb chwaraeon, y côr ac Adran yr Urdd.

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Heulwen ac Alun Rees, Heol Iscoed, a'r teulu ar golli mam Heulwen ddechrau mis Awst. Bregus fu iechyd Mrs Marjorie Smith ers tro. Cynhaliwyd yr angladd ar y 25ain o Awst yn Eglwys Sant Elli, Y Gilwern.

Yr un yw ein cydymdeimlad â theulu Mrs Barbara Griffiths gynt o Heol y Ffynnon a fu farw ddiwedd mis Gorffennaf. Roedd Barbara wedi symud i fyw at ei merch Ann, yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr wrth i'w hiechyd ddirywio.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau gwresog i Janet Wei, Ffordd y Capel ar ei champ orchestol o ennill Pencampwriaeth Bwyd Stryd Prydain yn Hull yn ddiweddar. Janet a'i gŵr Huw Caffrey yw cydberchnogion y Tŷ Bwyta Tsieineaidd poblogaidd ym Marchnad Pontypridd a agorwyd rhyw ddwy flynedd yn ôl. Ymwelodd Rhodri Owen, rhaglen Heno â'r Tŷ Bwyta ym Mhontypridd i fwynhau'r arlwy ac i longyfarch a chael sgwrs gyda Janet a Huw.









**Oedfa Radio Cymru**
Braf oedd gwrando ar Oedfa Radio Cymru, Fore Sul Awst 29ain gan mai ein cymydog oedd yn cynnal yr Oedfa. Soniodd Geraint Rees am ei brofiadau yn mynychu Gŵyl Greenbelt yn ystod wythnos olaf Awst dros y blynyddoedd. Casglodd Caroline ac yntau amrywiaeth o gofroddion o'r Ŵyl ac wrth ymhelaethu am gefndir y gwrthrychau yma tanlinellodd her y cyfrifoldeb sydd arnom tuag at y blaned a chyd-ddyn. Atgyfnerthwyd ei neges bwysig gan recordiad o Siân Elin yn canu ei chân "Gwyn ein Byd".

**Y TABERNACL**
O'r diwedd, ar ôl misoedd ar fisoedd o ynysu mae'n braf bod yn ôl i gyd-addoli yn y capel a gweld ffrindiau wyneb-yn-wyneb unwaith yn rhagor. Mae'n rhaid cadw pellter, di-heintio'r dwylo a gwisgo mygydau wrth gwrs, ond profiad dymunol iawn oedd cael bod yn ôl yn y capel.

**Swyddog Ieuenctid Newydd Y Tabernacl**
Penodwyd Eleri Mai Thomas yn Swyddog Ieuenctid a Chymunedol rhan amser i'r eglwys ac ar fore Sul, Medi 11eg, fe gafodd yr aelodau gyfle i'w chroesawu'n gynnes i'w plith. Mae Eleri'n wreiddiol o Langynin, pentref bach hardd ger San Clêr yn Sir Gaerfyrddin. Bellach mae wedi ymgartrefu yn Nhreganna, Caerdydd, gyda'i gŵr James a'r merched Nel sy'n 8oed a Nansi sy'n 4 mlwydd oed. Mae Eleri'n brofiadol iawn ac wedi gweithio yn y maes Cymunedol ac Ieuenctid ers dros ugain mlynedd.



Ei phrofiad cyntaf oedd gweithio gyda phlant a phobl ifanc Bro'r Preseli yn Sir Benfro. Treuliodd y ddegawd ddiwethaf yn aelod o staff yr Urdd yn y sector ieuenctid gan weithio am gyfnod fel Swyddog Ieuenctid yn Ysgol Gyfun Garth Olwg. Mae Eleri'n berson brwdfrydig iawn ac yn barod i fwrw iddi i weithio gydag aelodau'r Tabernacl, yr hen a'r ifanc. Bydd yn barod i wrando a chroesawu unrhyw syniadau gan yr aelodau. Estynnwn ein dymuniadau gorai i Eleri yn ei swydd newydd.

**Blas y Pridd**
Mae'r ardd Gymunedol yn mynd o nerth i nerth. Bu cyfle i'r aelodau a'r pentrefwyr flasu peth o gynnyrch yr ardd





lysiau ddiwedd Awst. Mi ges i dato blasus iawn o'r ardd. Diolch i'r garddwyr brwd. Mae'n debyg fod yr Ardd Gymunedol wedi denu sylw ymhell y tu hwnt i'r Efail Isaf. Bydd tîm datblygu "Eden project Communities" yn dod i ymweld â'r ardd ddydd Iau, Hydref 17eg i gynnig help a chefnogi'r prosiect.

**Apêl Dillad**
Cafwyd ymateb hael a ffafriol iawn i apêl John Llew a'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol am ddillad plant a dillad ysgol ar gyfer elusen Carmel, Blaenllechau. Cafodd y dillad eu danfon mewn da bryd ar gyfer dechrau'r tymor ysgol newydd.

**Colli ffrindiau o'r Ysgol Sul**
Mae teulu Mari Wort wedi symud o Bontyclun i'r Wyddgrug er mwyn bod yn nes at y teulu. Bydd hyn yn golled i'r Ysgol Sul gan fod Mari'n weithgar iawn yno, a gwelir colli'r plant, Moli, Gwenno a Mabon hefyd. Estynnwn ein dymuniad gorau iddynt yn eu cartref newydd.

**Gwellhad Buan**
Dymunwn yn dda i Vera Gammon sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty ar ôl cwymp a thorri ei chlun.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Hydref**
Hydref 3ydd: Oedfa Gymun gydag Ann ac Emlyn Davies
Hydref 10fed: Gwasanaeth o dan ofal Iwan Rowlands a'r Parchedig Aled Edwards
Hydref 17eg: Cwrdd Diolchgarwch gyda Huw M a Bethan a phlant yr Ysgol Sul.
Hydref 24ain: Gwasanaeth o dan ofal Glenys Roberts a'r Parchedig Gethin Rhys
Hydref 31ain: Gwasanaeth o dan ofal Lyn a Mike West a'r teulu.

# Tŷ Evan Jones, Garndolbenmaen


Ces gyfle ym mis Gorffennaf i chwilio am hanes fy nheulu yn ardal Porthmadog. Roedd fy Nain yn dod o Garndolbenmaen ac mae'n bosib dilyn hanes ei theulu drwy restri'r Cyfrifiad o 1841 ymlaen. Roedd y teulu wedi symud nifer o weithiau rhwng 1841 ac 1891 i wahanol dai – Tŷ Newydd, Tŷ'n y Pistyll, Tŷ'n y Coed, Gwydr Uchaf, ac mae rhai o'r bythynnod hyn ar fapiau sy'n dyddio nôl i 1885.

Ffynhonnell arall am wybodaeth yn yr 1840'au yw Arolwg y Degwm sy'n rhestru perchennog bob cae ac adeilad yn y wlad. Mae'r wybodaeth am Gymru i gyd ar gael ar wefan y Llyfrgell Genedlaethol. Rhoddir enw neu rif i'r rhan fwyaf o dai ar y mapiau ac mae un tŷ yng Ngarndolbenmaen wedi ei enwi ar ôl ei berchennog ar fap a chofrestr y Degwm - Tŷ Evan Jones.

Evan Jones oedd fy hen hen daid a anwyd yn Llanarmon, Chwilog, yn 1783. Credir iddo gael ei fagu yn y Gaerddu Fach, rhyw hanner ffordd rhwng Llanarmon a Garndolbenmaen. Aeth yn forwr i'r Llynges tua 1800 a bu'n gwasanaethu yng nghyfnod o frwydro cyson rhwng Llynges Prydain a Ffrainc. Mae cofnod ohono yn archifau'r Llynges yn yr 1840'au.


Er ei holl anturiaethau ar y môr daeth yn ôl adref am gyfnodau a phriodi Mary Roberts, hefyd o Lanarmon tua 1827. Ac erbyn Arolwg y Degwm yn 1840 roeddynt yn byw yn 'Tŷ Evan Jones' yng Ngarndolbenmaen. Mae'n eithaf posib ei fod yn dŷ 'unnos' a adeiladwyd mewn cornel o gae ar ochr llwybr i fyny uwchlaw'r pentref.

Cafwyd pedwar o blant Sarah, Ann, Richard a Mary. Bu farw Mary, ei wraig, yn 1849, yn 43 oed a bu farw Evan Jones yn 1865 yn 81 oed. Mae'r bwthyn wedi ei ddymchwel ers talwm ond mae nifer o fythynnod tebyg o gwmpas.



Map y Degwm

# Llyfr i Ddathlu Pen-blwydd Arbennig Iawn




Mae'r gyfrol hon yn gasgliad o 20 erthygl safonol ar enwau lleoedd gan arbenigwyr o Gymru a thu hwnt, wedi eu crynhoi gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru i ddathlu pen blwydd yr Athro Gwynedd O Pierce yn 100 oed yn 2021: 13 erthygl Gymraeg a 7 yn Saesneg. Gwnaeth yr Athro Pierce fwy na neb i sicrhau fod gwyddor astudio enwau lleoedd yng Nghymru wedi ei gosod ar seiliau cwbl gadarn.

Yn y gyfrol dysgwn am enwau strydoedd Aberaeron a Chaerdydd, am enwau ardal Caernarfon - tref enedigol yr Athro Pierce - gan gynnwys enwau lleiniau pysgod a throbyllau yn y Fenai; ceir erthyglau am enwau lleoedd ar draws Cymru a'r Gororau, am enwau mewn hen destunau canoloesol, am hanes yr ymgyrch i safoni enwau lleoedd Cymru, gan esbonio rhan allweddol yr Athro Pierce yn y gwaith hwnnw, ac am waith Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn hybu prosiectau cymunedol i gofnodi a gwarchod ein henwau. Ceir hefyd erthyglau gan arbenigwyr o Iwerddon, yr Alban a Chernyw - gan drafod er enghraifft, y cyswllt rhwng Penarth ym Morgannwg a'r 11 Penarth a geir yng Nghernyw.

Gwasg Y Lolfa Pris: £14.99
Nifer y tudalennau: 260

Mae disgrifiad o gyflwr yr ardal yn y llyfryn "Hanes Y Garn a'i Thrigolion yn y Gorphenol" a gyhoeddwyd yn 1902 - "Rhyw ddau gan mlynedd yn ôl yr oedd yr ardal brydferth a phoblog hon yn fynydd-dir diffrwyth, gwlyb, caregog a gwrthnysig."

Erbyn 1861 roedd merch Evan Jones, Mary, yn byw yn Gwydr Uchaf ac wedi cael mab, William E Jones. Yn ôl y llyfr "Y Garn a'i Thrigolion" roedd William, sef Myfyr o'r Coed, "yn un o feirdd ieuanc mwyaf addawol yr amgylchoedd. Medrai gynganeddu yn bert a rhwydd a chyhoeddodd lyfr o'i weithiau barddonol dan yr enw 'Gwlith Eifion'. Bu farw yn ddyn ieuanc 23 mlwydd oed yn dilyn damwain yn un o chwareli Ffestiniog a chladdwyd ef ym mynwent Eglwys Dolbenmaen."

Wrth grwydro'r ardal ces weld adfeilion Gwydr Uchaf gyda golygfeydd yn ymestyn tua'r môr. Cerdded i lawr llwybr cul y Lôn Las oedd newydd gael ei glirio o chwyn. Heibio'r Garreg Lwyd ac adfeilion Tŷ Evan Jones a chael cymorth gan gyfaill yn Ty'n y Coed (Pen y Gaer).

Tybed a oes gan unrhyw un gopi o 'Gwlith Eifion', Myfyr o'r Coed, neu sy'n nabod rhai o deulu Evan Jones?

Penri Williams



Adfeilion Gwydr Uchaf



Bedd Myfyr o'r Coed, Eglwys Dolbenmaen

Blas ar Englynion Myfyr o'r Coed

**YR HEN LANC.**
**Hen adyn truan ydyw - yr hen lanc**
**Ar ben linell distryw;**
**Dyry sen i bob menyw**
**Am na fyn ei chwmni i fyw.**

**YR HEDYN GWENITH.**
**Oludog gnydol hedyn, - ohonot**
**Yr hanna blawd gwrwyn;**
**Annwul dorth at gynnal dyn**
**Geir o hwnnw bob gronyn.**

# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Tristwch Mawr**

Wrth i Tafod Elái fynd i'r wasg fe glywsom y newyddion trist am farwolaeth y ddarlledwraig a chynhyrchydd Radio Cymru Magi Dodd, Heol Tyfica, Pontypridd yn 44 oed. Yn gyn ddisgybl Ysgol Pont Sion Norton a Rhydfelen roedd Magi yn angerddol am ei thref enedigol. Ar ôl gadel ysgol aeth i astudio yn y brifysgol yn Aberystwyth. Roedd hi wedi bod yn gweithio i'r BBC am dros 20 mlynedd. Buodd yn gweithio ar raglenni C2 ac yn cyflwyno Dodd.com



Dywedodd Rhuanedd Richards, Cyfarwyddwr Cynnwys a Gwasanaethau BBC Cymru fod 'parch mawr ati fel darlledwraig i ddechrau ac yna cynhyrchydd. Roedd yn cael ei hadnabod fel person caredig, egniol a chreadigol oedd yn frwdfrydig am ei gwaith ac yn angerddol dros y Gymraeg. Mae colli Magi yn ergyd drom i bob un ohonom ond yn enwedig i'w ffrindiau, i'w chydweithwyr yn Radio Cymru ac wrth gwrs yn bennaf oll i'w theulu.'

Gwelwyd nifer o deyrngedau iddi ar y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal ag ar raglenni Heno a Phrynhawn Da a Newyddion y BBC.

Estynwn ein cydymeimlad dwysaf at ei phartner, Aled a'i rhieni Mair a Gerald Dodd, Lan Close, Graigwen, ei chwaer Beth a'i theulu a'i ffrindiau di-ri.

**Llongyfarchiadau**

Pob dymuniad da i Geraint Day, Hillside View sy wedi dathlu pen-blwydd nodedig yn ddiweddar.

Mae Dave a Margaret Francis, Parc Prospect yn dathlu eu priodas aur mis yma. Pob hwyl wrth i chi fwynhau gwylie gyda'r teulu cyfan yn Centre Parcs.







**Llwyddiant Haeddiannol**

Unwaith eto fe ddaeth mwy o glod i'r gogyddes Janet Wei Caffery, Efail Isaf. Enillodd wobr 'Pencampwriaeth Bwyd Stryd Prydain' yn Hull gan guro rhai chefs yn gweithio mewn tai bwyta seren Michelin. Aethon nhw i Hull ar ôl derbyn gwobr 'Dewis y Bobl' yng Nghaerdydd. Agorodd Janet a'i gwr Huw y bwyty 'Janet's Authentic Northern Chinese' yn y farchnad ym Mhontypridd dros ddwy flynedd yn ôl. Magwyd Janet yn ardal Yambian o China yn agos at Ogledd Korea. Mae ei choginio yn gyfuniad o fwydydd y ddwy wlad. Clywyd Huw yn siarad ar Radio Cymru a roedd eitem ar 'Heno'. Roedd derbyn y wobr yn syrpreis mawr iddynt ond yn amlwg maent wrth eu bodd a'r bwyty mor brysur ag erioed!

**Merched y Wawr**

Fe fydd y gangen yn cwrdd Hydref 14eg yng Nghlwb y Bont pan fydd yr arlunydd Anthony Evans, Caerdydd yn dod i sôn am ei waith.

Nôl at gyfrwng Zoom ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd pan fydd Mike Ebbsworth yn cynnal dosbarth Pilates. Ymunwch â ni nos Iau Tachwedd 11eg am 7.30 p.m.

Cafwyd cyfarfod blynyddol tro diwethaf. Diolchwyd i Dilys Davies, Cerys Webber, Mair Edwards a Menna Lewis am eu gwaith i sicrhau parhad y gangen yn ystod cyfnod anodd y deunaw mis diwethaf.
Swyddogion eleni:
Llywydd - Jayne Rees. Ysgrifennydd – Cerys Webber. Is-ysgrifennydd – Dilys Davies. Trysorydd - Mair Edwards

**Colledion**

Bu farw Clive Lewis, Ridgeway Close, Graigwen ym mis Awst. Yn ŵr i Vanessa ac yn dad i Rachel, Gareth a'r diweddar Ceri. Mynychodd y plant Pont Siôn Norton ac Evan James. Roedd yn un o selogion bnawn Sadwrn yng Nghlwb y Bont. Estynnwn ein cydymdeimlad iddynt a'u teuluoedd.

Ym mis Medi bu farw Bill Dunkerton, Y Graig. Yn ŵr i Lynda ac yn dad i Sarah - un o ddisgyblion cyntaf ysgol Evan James. Roedd Bill a Lynda yn gefnogol iawn i'r ysgol a'r G.Rh.A. drwy gydol addysg Sarah yno. Yn meddwl amdanoch yn eich galar.

**Clwb Llyfrau**

Mae'r darllenwyr brwd yn parhau i gwrdd yn fisol ar Zoom. Cynhelir y cyfarfod nesa nos Lun, Hydref 18 fed am 7.00 p.m. Y gyfrol dan sylw mis yma yw'r nofel 'Tu ôl i'r Llenni' gan Eirlys Wyn Jones.

**Clwb y Bont**

Mae'r Clwb yn falch o allu cynnal ambell ddigwyddiad yn ddiweddar gan ddilyn canllawiau'r Llywodraeth.

Fe ddaeth Morgan Elwy a'i fand i gynnal noson mis Medi. Er mwyn diolch i bawb am eu cefnogaeth ar ôl y llifogydd a thrwy'r deunaw mis diwethaf cafwyd noson arbennig gan neb llai na Huw Chiswell.

Dyma ddigwyddiadau mis Hydref
Nos Wener Hyd. 1af Bella Collins ( blues)
Nos Wener Hyd 15fed YPN (perfformwyr ifanc)
Nos Sadwrn Hyd. 16eg Clwb Comedi
Nos Iau Hyd. 21 ain Ladies Sing Jazz.
Cofiwch edrych ar dudalen Facebook y Clwb am y newyddion diweddaraf.

Mae aelodaeth 2021/2022 yn ddyledus nawr. Fe fydd llythyr a ffurflenni yn cael eu danfon at aelodau cyfredol yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae modd i aelodau newydd gysylltu â'r Clwb am ffurflen. Mae cefnogaeth yr aelodau yn hynod o bwysig ac yn rhan hanfodol yn ôl cyfansoddiad y Clwb.

# Côr Meibion Taf

Mae Côr Meibion Taf wedi ailddechrau ymarfer yn wythnosol ar ôl gwyliau'r haf. Llwyddodd y côr i gynnal ymarferion wyneb yn wyneb cyn yr haf hefyd a dod yn drydydd yn yr Eisteddfod Amgen eleni. Rydym yn ddiolchgar iawn i swyddogion Clwb Rygbi Pentyrch am adael i ni ddefnyddio eu hadnoddau yn ystod y cyfnod hwn.

Mae croeso i aelodau hen a newydd ymuno â ni yn ein hymarferion yn y dyfodol pan gawn gyfle i atgoffa'n hunain o'r hen ffefrynnau a chael blas ar ddarnau newydd. Cysylltwch â Rhodri Jones 07770 559961 (Cadeirydd) neu Colin Williams 07768 900738 (Ysgrifennydd) ac ymwelwch â'r wefan https://cormeibiontaf.cymru

Er bod y côr wedi parhau i gyfarfod yn rhithiol dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r bois wedi gweld eisiau'r ymarferion wythnosol. Hwn yw'r cyfle i sgwrsio a chymdeithasu yn ogystal ag ymarfer y repertoire wrth gwrs. Fe benderfynon ni fynd ati felly i geisio dod i adnabod ein gilydd hyd yn oed yn well a hynny trwy holi ac ateb cyfres o gwestiynau difyr ac ysgafn. Fe gawsoch hanes tri o'n helodau, gan gynnwys ein cadeirydd, Rhodri Jones, rai misoedd yn ôl. Dyma gyflwyno rhagor o gymeriadau'r côr i chi.

## Byron Edwards – Top Tenor!

**Rho grynodeb i ni o'th gefndir. Beth ddaeth â ti i'r ardal hon (dalgylch CMT)?**
Cefais fy ngeni yn Llandudoch, Sir Benfro ac yn bedair oed symudais i dre Aberteifi. Ar ôl cwblhau fy addysg yn Ysgol Ramadeg Aberteifi fe es i Southampton i hyfforddi i fod yn syrfewr cartograffeg gyda'r Ordnance Survey. Treuliais rhan fwyaf o fy ngyrfa yng Nghymru.

Cyflwynodd Edryd Lloyd fi i CMT 11 mlynedd yn ôl.

**Beth yw dy atgof cynharaf?**
Dod yn fuddigol yng nghystadleuaeth unawd soprano i fechgyn yn Eisteddfod Capel Tabernacl yn Aberteifi a wedyn gorfod canu yng ngwasanaeth nos Sul tra'n sefyll ar focs i bawb allu fy ngweld i. Dwi dal angen bocs!!

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**
Byrbwyll. Hwyliog. Cymdeithasol.

**Beth yw dy hoff le yng Nghymru / yn y byd?**
Traeth Aberporth. Yn y byd? Laigueglia, Liguria yn yr Eidal

**Oes gen ti unrhyw arferion gwael?**
Oes, gormod i restru.

**Beth sydd wir yn dân ar dy groen di ?**
Pobl ddi-Gymraeg sy'n cwyno am yr iaith Gymraeg a pherchnogion tai yn newid hen enwau cartrefi o'r iaith Gymraeg i'r Saesneg.

**Beth am rannu rhywbeth gyda ni nad yw llawer o bobl yn ei wybod?**
Helpu ffrind i hwylio ei gwch o Torquay i Aberdaugleddau dros gyfnod o wythnos a



hefyd o Faro, Portugal i Cartagena, Sbaen tua 500Km o bellter.

**Pwy yw'r person mwyaf nodedig gwrddest ti erioed?**
Kiri Te Kanawa. Cefais y fraint o wrando arni yn cynnal dosbarth meistr i fyfyrwyr Academi Llais Rhyngwladol Cymru.

**Beth fyddai dy bryd o fwyd delfrydol? Gyda phwy yr hoffet ti rannu'r pryd hwn?**
Cregyn gleision yn syth o'r môr gyda saws gwin gwyn a garlleg gyda'r teulu.

**Pan nad wyt ti'n dysgu repertoire CMT, sut wyt ti'n mwynhau treulio dy amser hamdden?**
Trio chwarae golf, cerdded yn ddyddiol, ychydig o DIY a lot o gymdeithasu.

**Yn ystod y cyfnod clo pa raglenni teledu wyt ti wedi mwynhau eu gwylio?**
Summer of Rockets, Line of Duty, Time, i enwi ond ychydig.

**Beth yw dy hoff lyfr? Pwy yw dy hoff awdur?**
Does gen i ddim hoff lyfr.
Hoff awdur: John Grisham.

**Pa gerddoriaeth byddet ti'n dewis gwrando arni ar ynys bellennig?.**
'Leonard Cohen's Greatest Hits' !

**Nawr bod y cyfnod clo drosodd, beth wyt ti'n edrych ymlaen at ei wneud fwyaf?**
Mynd ar wyliau dramor gyda'r teulu oll.

## Edryd Lloyd – Baswr



**Rho grynodeb i ni o dy gefndir. Beth ddaeth â ti i'r ardal hon (dalgylch CMT)?**
Ces fy ngeni a fy magu ym mhentre gwledig Beulah, De Ceredigion lle ar y pryd roedd pawb yn siarad Cymraeg. Ar ôl gadael Ysgol Ramadeg Aberteifi a graddio mewn peirianneg yng Nghaerdydd ymunais â B.P. Chemicals/I.C.I yn Sili ger y Barri gan ymddeol fel Prif Beiriannydd yn 2002.

**Beth yw dy atgof cynharaf?**
Profociais geiliog ac ymosododd arna i gan lanio ar fy ysgwydde a phigo fy mhen. Brawychus!

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**
Cystadleuol. Trefnus. Teg

**Beth yw dy hoff le di yng Nghymru / yn y byd?**
Cwrs a Chlwb Golff Aberteifi.
**Yn y byd?** Yng nghanol yr Alpau yn y Tyrol, Awstria, gaeaf neu haf.

**Oes gennyt ti unrhyw arferion drwg?**
Gadael dysgu geiriau i`r funud ddiwethaf.

**Beth sydd wir yn dân ar dy groen di?**
Pobl sy`n rhugl yn y Gymraeg ac yn dewis siarad Saesneg â`i gilydd ac â`u plant.

**Beth am rannu rhywbeth gyda ni nad oes llawer o bobl yn ei wybod?**
Cael y fraint o chwarae fel cefnwr tu ôl i`r haneri gore fu erioed, sef Syr Gareth Edwards a Barry John (i Glwb yr Athletic Caerdydd yn erbyn Castell Nedd).

**Pwy yw'r person mwyaf nodedig gwrddest ti erioed?**
Kiri Te Kanawa [fel Byron] ond fe ges i gwtsh a chusan ganddi! Hyn ar ôl iddi berfformio mewn cyngerdd gyda Chantorion Ardwyn.

**Beth fyddai dy bryd o fwyd delfrydol? Gyda phwy byddet ti'n hoffi rhannu'r pryd hwn?**
Plataid o fwyd môr amrywiol gyda gwin gwyn sych ar ddiwrnod braf ym Mhortiwgal yng nghwmni`r teulu a ffrindie.

**Pan nad wyt ti'n dysgu repertoire CMT sut wyt ti'n mwynhau treulio dy amser hamdden?**
Chwarae golff, potsian yn y sied/beudy/storws.

**Yn ystod y cyfnod clo pa raglenni teledu wyt ti wedi mwynhau eu gwylio**
Dragon`s Den, Cynefin, Great Continental Railway Journeys gyda Michael Portillo.

**Beth yw dy hoff lyfr? Pwy yw dy hoff awdur?**
Dim un yn arbennig – newydd orffen ac wedi mwynhau "A Thousand Splendid Suns" gan Khaled Hosseini.

**Pa un darn o gerddoriaeth byddet ti'n ei ddewis i wrando arno ar ynys bellennig?**
Steffan Jones a Llinos Haf yn canu Benedictus. (Fe ganodd y ddau yng nghyngerdd CMT ym Mhenarth i godi araian ar gyfer cancr y prostad ym mis Rhagfyr 2018.)

**Pan fydd y cyfnod clo drosodd beth wyt ti'n edrych ymlaen at ei wneud fwyaf?**
Cael rhyddid i fynd a dod heb orfod cynllunio.

# Heno yn y Lido



Aled Humphreys, Cyd-lynydd Parc Ynysangharad, bu'n sôn am y Lido ar Heno. Hefyd cafwyd sgwrs gyda rhai o ddefnyddwyr y pwll nofio arbennig.



Ioan Bellin



Menna Rogers

# Ysgol Garth Olwg

**Hyderus?**
Llongyfarchiadau i'n disgyblion a oedd wedi llwyddo i gael eu cwestiynau wedi dewis ar gyfer gêm newydd Hyderus.



**Pêl-droed**
Llongyfarchiadau i Megan Bowen, Blwyddyn 12 ar ennill cap dros dîm pêl-droed merched Cymru dan 17.



**Taith Blwyddyn 7**
Gan nad oedd ein taith flynyddol i Langrannog ar ddechrau Blwyddyn 7 yn medru digwydd eleni cafodd disgyblion Blwyddyn 7 y cyfle i fynychu taith i Gaerdydd. Bu'r disgyblion yn mwynhau cymdeithasu gyda ffrindiau newydd wrth fowlio deg yn y Bae a chwarae rownderi ar Gaeau Llandaf!





**Canlyniadau TGAU**
Llongyfarchiadau i ddisgyblion Garth Olwg ar eu canlyniadau TGAU eleni! Ymysg disgyblion yr ysgol a oedd wedi sicrhau'r graddau uchaf roedd:
Ffion Fairclough 13A*, Elen Griffiths 13A*, Adam Bartlett-Jones 12A* 1A, Poppy Vanstone 10A* 3A Anwen Fowler 7A* 3A, Beca Roberts 6A* 7A, Abigail Protheroe 4A* 9A, Megan Edmunds 3A* 10A

Dywed y Prifathro, Mr Edwards : "Llongyfarchiadau enfawr i'r disgyblion sydd wedi trechu nifer o heriau yn sgîl pandemig COVID-19. Mae'r disgyblion wedi gorfod dysgu o adref yn sgîl dau gyfnod clo estynedig yn ogystal â chyfnodau o hunanynysu ac mae'r canlyniadau yn ddathliad o'u dycnwch a'u dyfalbarhad. Mae'r staff wedi darparu'r gefnogaeth orau bosib ac mae pawb wedi cydweithio fel un gymuned i sicrhau'r deilliannau rhagorol yma i'r disgyblion a hynny mewn cyfnod digynsail i addysg yng Nghymru a thu hwnt. Cymeraf y cyfle hefyd i longyfarch a diolch i'r rhieni, gofalwyr a theuluoedd am eu cefnogaeth gref."



**Canlyniadau Safon Uwch**
Llongyfarchiadau hefyd i ddisgyblion Ysgol Garth Olwg ar eu canlyniadau Safon Uwch gwych.

Ymysg disgyblion yr ysgol a oedd wedi sicrhau'r graddau uchaf eleni roedd: Huw Griffiths: 4A*. Gruff Roberts: 4A*. Brianne Jones: 3A*, 1A. Steffan West: 3A*, 1A. Darcy Morgan: 2A*, 2A. Anwen Davies: 1A*, 3A. Ewan Edwards: 1A*, 3A. Efan Fairclough: 1A*, 3A. Iwan Smith: 1A*, 3A. Nia Osborne: 4A. Kate Phillips: 4A.
Mae ein disgyblion yn bwriadu astudio mewn nifer o brifysgolion gwahanol gan gynnwys Prifysgolion Caergrawnt, Caerdydd, Manceinion a Bryste. Ymhlith y Prifysgolion eraill sydd wedi eu dewis gan ein disgyblion mae Abertawe, Aberystwyth, Bangor, De Cymru a Plymouth.

Dywedodd Julie Barton, Cadeirydd Corff y Llywodraethwyr: "Ar ran y Llywodraethwyr, hoffwn longyfarch ein disgyblion ar eu canlyniadau Safon Uwch a Galwedigaethol Lefel 3 mewn cyfnod mor eithriadol. Rydym yn falch iawn o'r hyn y maent wedi ei gyflawni ac yn dymuno'n dda iddynt i'r dyfodol. Diolch hefyd i'r staff am eu gwaith caled a diflino wrth gefnogi ein pobl ifanc mewn blwyddyn academaidd ddigynsail oedd mor heriol i bawb."



## Hyderus?



Lansiwyd HYDERUS? mewn siopau ledled Cymru ym mis Medi. Mae'n gêm fwrdd dwyieithog gyda chwestiynau am Gymru a'r byd. Yn berffaith ar gyfer unrhyw Gymry - boed yn siaradwyr Cymraeg, yn ddysgwyr, yn ddi-Gymraeg neu fel anrheg i ymwelwyr - bydd yn rhaid iddi fod ar bob rhestr siopa y Nadolig hwn! Does dim gêm well i ddiddanu'r teulu dros gyfnod y Nadolig.

HYDERUS? yw'r gêm gwis dwyieithog gyntaf am Gymru. Cafodd ei ddyfeisio gan y cwpl Ceri Price o Lanelli a Natalie Podd o Lundain a lansiwyd y Fersiwn Saesneg CONFIDENT? yn 2018 i adolygiadau gwych. Mae Ceri'n rhedeg y busnes o ddydd i ddydd, a chan ei fod yn siaradwr Gymraeg, roedd y syniad o fersiwn Gymraeg o hyd yn agos at ei galon.

Pris y gêm yw £22.99, a gyda phob gêm a brynir, mae coeden yn cael ei blannu. Mae'n dod gyda 200 cerdyn cwestiwn, 6 pen a bwrdd ateb dry-wipe a sgorfwrdd. Awgrymir ar gyfer oedrannau 10 ac i fyny a gall 2 - 30 person chwarae.

# Ysgol Creigiau

**Llangrannog**
Croeso nôl i ddisgyblion Dosbarth 6 wedi iddynt dreulio wythnos yn y Gwersyll ger y lli! Roedd pob un wedi mwynhau'r antur yn fawr iawn ac wedi dangos ymddygiad ac agwedd arbennig drwy gydol yr wythnos. Da iawn chi blant! Diolch yn fawr iawn i Mr Evans, Miss Phillips, Miss Davies a Mrs Evans am fynd gyda'r disgyblion.



Mwynhau Llangrannog

**Criced Dwyrain Cymru Dan 10**
Mae Oliver (Class 4), Harri (Dosbarth 5) ac Ieuan (Dosbarth 5) wedi'u dewis i Sgwad Hyfforddi Gaeaf Dan 10 Dwyrain Cymru. Gwych fechgyn!



Harri



Oliver



Ieuan

**Seiclo i ddisbyglion Blwyddyn 6**
Yn ddiweddar mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi derbyn gwersi seiclo gan swyddogion diogelwch y ffordd Cyngor Caerdydd. Maent wedi dysgu rheolau'r ffordd fawr a sut i ofalu am eu beiciau.



**Parlys yr Ymennydd Cymru**
Yn ystod gwyliau'r haf cynorthwyodd pedwar o'n disgyblion breswylydd lleol i drefnu arwerthiant planhigion ar gyfer Parlys yr Ymennydd Cymru (Cerebral Palsy Cymru) sy'n ganolfan ragoriaeth genedlaethol i deuluoedd yng Nghymru gyda phlant sydd â pharlys yr ymennydd. Helpodd Will (sydd bellach yn Ysgol Gyfun Radur), Emily (Class 5), Lilian (Dosbarth 5) a Gabi (Dosbarth 5) sefydlu stondin planhigion, gwnaethant bosteri artistig hardd a chadw cyfrif o'r arian. Codon nhw gyfanswm o £350. Roedd yn fenter hynod lwyddiannus ar gyfer achos teilwng iawn. Da iawn Will, Emily, Lilian a Gabi!









## Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

**Croeso 'nôl**
Hoffem groesawu holl ddisgyblion a staff yr ysgol yn ôl wedi gwyliau'r haf. Gobeithio y cewch chi i gyd flwyddyn arbennig eleni.

**Iard yr Adran Iau**
Roedd cyffro mawr ar ddiwrnod cyntaf y tymor pan welodd disgyblion yr Adran Iau yr offer chwarae newydd ar eu hiard. Mae'r senedd nawr wrthi'n brysur yn meddwl am ddatblygu'r iard ymhellach y tymor hwn. Edrychwn ymlaen at y cam nesaf.

**Pêl-droed Rhondda Cynon Taf**
Llongyfarchiadau i Lowri Phillips a Nel Withey-Smith am gael eu cynnwys yng ngharfan pêl-droed i ferched Rhondda Cynon Taf. Gwnaeth y ddwy yn wych yn y treialon a dymunwn yn dda iddynt y tymor hwn. Pob lwc ferched.



**Etholiadau'r cynghorau ysgol**
Mae aelodau pob cyngor wedi'u hethol ac yn barod i ddechrau ar eu gwaith. Mae gennym Gyngor Eco, Cyngor Iechyd a Lles, Arweinwyr Digidol, y Criw Cymreig ac wrth gwrs y Senedd. Byddant i gyd yn brysur gydol y flwyddyn yn meddwl am weithgareddau cyffrous i ddisgyblion yr ysgol.

## Ysgol Tonyrefail

**Y Dosbarth Meithrin**
Hyfryd oedd croesawu 31 o ddisgyblion newydd i'r dosbarth Meithrin ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd arall. Rydym yn edrych mlaen i ddilyn eu taith trwy'r ysgol. Daeth aelod newydd arall i'r dosbarth hefyd sef Linda y bochdew. Mae'r plant wedi mwynhau dewis ei henw a dysgu sut i ofalu amdani.



**Llwyddiant Ewropeaidd**
Llongyfarchiadau anferthol i Verity Walters o Flwyddyn 3 a ddaeth yn gyntaf fel aelod o dîm dawnsio 'Decendents' yng nghystadleuaeth 'European Latin Formation Championships' yn ddiweddar. Mae Verity yn ddawnswraig dalentog ac mae wedi ennill nifer o gystadleuaethau unigol yn ogystal. Rydyn yn edrych mlaen i'w gweld ar 'Strictly Come Dancing' yn y dyfodol!

**Dechrau da i'r Criw Cymreig**
Aeth rhai o aelodau'r Criw Cymreig i Glwb y Bont i gyflwyno rhodd i'r Clwb yn dilyn y llifogydd y llynedd. Cynhaliwyd cysytadleuaeth i holl ysgolion y clwstwr yn gofyn iddynt gyfansoddi cerdd a chreu darn o gelf a'r thema oedd "Pontypridd". Ysgol Pont Sion Norton oedd y buddugwyr ac fe fframiwyd y gweithiau budddugol a'u cyflwyno i Glwb y Bont. Gobeithio y byddant yn edrych yn wych yno.



Verity Walters Blwyddyn 3 a'r gwpan am ddod yn gyntaf drwy Ewrop

**Diolch i Jordan Morgan - Hughes**
Trist iawn yw gorfod ffarwelio â Jordan Morgan-Hughes sydd yn gadael ei rôl o arwain yr Urdd ym Morgannwg Ganol ar ôl bron i 13 mlynedd yn y swydd. Byddwn yn gweld eisiau ei frwdfrydedd a'i angerdd tuag at ei swydd - fe wnaeth cymaint i hyrwyddo a chynyddu aelodaeth yr Urdd yn yr ardal hon. Dymunwn pob lwc iddo yn ei swydd newydd, bydd colled mawr ar ei ôl.




**Diwrnod Owain Glyndŵr**
Cynhaliwyd nifer o weithgareddau amrywiol drwy'r ysgol i ddathlu Diwrnod Cenedlaethol Owain Glyndŵr. Roedd y dosbarthiadau wedi cael y cyfle, fel rhan o 'Ŵyl Hanes Cymru i Blant', i wylio fideo o Owain yng Nghastell Harlech a chydganu ei gân.







# Gwledd ym Myd y Llyfr

Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno trwy Zoom â chyfarfodydd un o gymdeithasau diwylliannol Cymraeg mwyaf llewyrchus y brifddinas, sef Cylch Llyfryddol Caerdydd.

Mae'r Cylch yn cyfarfod am 7.00pm ar nos Wener unwaith y mis dros fisoedd y gaeaf.

Am y tro, cynhelir ein cyfarfodydd trwy gyfrwng Zoom. I dderbyn y ddolen i ymuno â'n cyfarfodydd, anfonwch at yr Ysgrifennydd, E. Wyn James: JamesEW@caerdydd.ac.uk

Oherwydd yr amgylchiadau rhithwir presennol, ni chodir tâl aelodaeth ffurfiol ar hyn o bryd, ond gwerthfawrogir cyfraniadau tuag at dreuliau'r Cylch gan y sawl sy'n mynychu'n cyfarfodydd.

Gellir anfon cyfraniadau at y Trysorydd, Berwyn Prys Jones, Gelli Glyd, 8 Tyn-y-Cae Grove, Rhiwbeina, Caerdydd CF14 6DB (ffôn: 029-2062-5417; e-bost: berwynjones3@gmail.com), neu eu talu yn syth i gyfrif banc y Cylch: Cod Didoli: 20-18-15, Cyfrif Rhif 10166758. Wrth dalu i gyfrif banc y Cylch, nodwch eich enw fel cyfeirnod er mwyn i'r Trysorydd wybod pwy sy'n talu.

**Dyma raglen Gaeaf 2021–22:**

***Gwener, 15 Hydref 2021***
Sgwrs gan Dr Rhiannon Marks a fydd yn mynd ar drywydd y stori fer Gymraeg.
***Gwener, 19 Tachwedd 2021***
Holi Megan Angharad Hunter, enillydd Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2021, am ei nofel arobryn, *tu ôl i'r awyr.*
***Gwener, 21 Ionawr 2022***
Sgwrs gan yr Athro Angharad Price ar y testun 'Ymbapuroli', sef teitl ei chyfrol ddiweddar o ysgrifau a gyrhaeddodd restr fer Llyfr y Flwyddyn 2021.
***Gwener, 18 Chwefror 2022***
Holi Lleucu Roberts, enillydd 'y dwbwl dwbwl rhyddiaith', am ei chyfrolau arobryn yn Eisteddfod AmGen 2021.
***Gwener, 18 Mawrth 2022***
Sgwrs gan Dr Siwan Rosser ar y testun 'Darllen y Dychymyg', sef teitl ei chyfrol ddiweddar ar lenyddiaeth Gymraeg i blant a gyrhaeddodd restr fer Llyfr y Flwyddyn 2021.
**Croeso cynnes i bawb**

Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd:
Yr Athro E. Wyn James,
16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 2AJ
(ffôn: 029-2062-8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

# IESTYN MEWN DU A GWYN



**TYWYDD STORMUS**

Gad i'r storm basio
Eto
Gwylia'r haf yn mynd i bacio
Backpacio dros y fro
Ac aros iddo dy daro

Mae bysedd amser yn dechrau tawelu.
Prysuro.
Tywyllu wrth lenwi'r dydd
gydag Oren, Melyn, Brown.

Rhaid dy fod di'n 'Colour blind'
Neu'n gwaedu.
Neu'n feddw
Neu'n meddwl bod paradwys yn bell, bell o fan hyn

Neu ddim
Sai'n gwybod!

Ti'n gwylio dwylo trwm
yn araf wasgu ar dy gefn
Ond defnyddio fy nwylo
Wnaf fi wrth wasgu trefn
A'i gadw
O'r ffordd.
Mewn cwpwrdd cartŵn sy'n orlawn o'n llanast.

Yr holl siarad wast
Yn lle gwylio,
ac edmygu,
Ni'n Trio dal i fyny

Cadw'n effro
Eto
gan aros i weddill y storm basio

- Iestyn Gwyn Jones

